ECAD6008 2022-23 (TAR)

Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Rhan I: Cwricwlwm i Gymru

Darlithydd: Nia Wyn Evans
n.evans@pcydds.ac.uk

Darlith 1: 29.9.22
(ar-lein)

Heddiw, byddwn ni'n:

- ystyried sefyllfa bresennol y Gymraeg.
- gosod addysg yng Nghymru yn ei chyd-destun presennol.
- ymgyfarwyddo â'r dogfennau priodol.
- ystyried: **pa sgiliau** ydw i'n eu haddysgu'r disgyblion?
- ystyried: **sut** ydw i'n addysgu'r sgiliau hynny i'r disgyblion?

Munud i feddwl …




Faint o ganran o boblogaeth bresennol Cymru sy'n rhugl yn yr iaith Gymraeg?

Rhannwch eich syniadau yn y sgwrs.

Beth yw sefyllfa'r Gymraeg heddiw?

- Yn ôl cyfrifiad 1911, roedd 977,366 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghyrmu, (sef 43.5% o'r boblogaeth).

- Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd y nifer a'r ganran wedi haneru, gyda 562,000 o siaradwyr Cymraeg bellach yn byw yng Nghymru, (sef 19% o'r boblogaeth).



Beth wnaeth Llywodraeth Cymru?



Mae hon yn strategaeth i Gymru gyfan, ac rydym am i bob rhan o'r wlad rannu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg.

(Tudalen 7)


“Mae’r Gymraeg yn un o drysorau Cymru…… Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio’r Gymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol ……”

Rhagair Carwyn Jones AC (Prif Weinidog yn 2017) ac Alun Davies AC (Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn 2017)

Llywodraeth Cymru (2017)Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Ar gael ar:

https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwjj6IPNqJXzAhVNilwKHTTnCzgQFnoECAUQAQ&url=https%3A%2F%2Fllyw.cymru%2Fsites%2Fdefault%2Ffiles%2Fpublications%2F2019-03%2Fcymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf&usg=AOvVaw2MXYsaDitd-Vd5uoNF0sKi

Dyma'r cyd-destun ……



Beth amdanom ni?

“… y system addysg a hyfforddiant yw’r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd.”

Llywodraeth Cymru (2017)Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Ar gael ar:

https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwjj6IPNqJXzAhVNilwKHTTnCzgQFnoECAUQAQ&url=https%3A%2F%2Fllyw.cymru%2Fsites%2Fdefault%2Ffiles%2Fpublications%2F2019-03%2Fcymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf&usg=AOvVaw2MXYsaDitd-Vd5uoNF0sKi




Felly, beth sy'n digwydd yn ysgolion cynradd Cymru ar hyn o bryd o ran datblygu'r Gymraeg?

Beth sy'n digwydd yn yr ysgolion?


- Mae'r Siarter Iaith yn gynllun sydd ar waith yn ein hysgolion er mwyn **hybu'r defnydd o Gymraeg yn gymdeithasol** yn ysgolion cynradd Cymru.


- Mae dau gymeriad newydd wedi cael eu cyflwyno, sef Seren a Sbarc, er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg.


- Fel rhan o'r Siarter, mae pob ysgol unigol yn cwblhau ymarfer sylfaenol i bennu defnydd o'r iaith cyn datblygu cynllun gweithredu i weithio tuag at wobr efydd, arian neu aur. Mae'r cynllun yn annog cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol - yn ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr ysgol a'r gymuned ehangach.









Siarad mwy nag un iaith?
Cwrdeg
Basgeg
Cymraeg
Maori
Tamil
Catalaneg
Romansh
Mae
65%
o boblogaeth y byd yn (o leiaf) ddwyieithog.
Galician
Amhareg
Affricaneg
Gwyddeleg


Meddyliwch am iaith fel hyn...
Think of language like this...
Mi fedrwch fynd i lefydd ar un olwyn (iaith)
You can go to places on one wheel (language)
Felly hefyd ar olwyn fawr ac olwyn fach
You can also do so on one big wheel and one small wheel
Ond pan fo'r ddwy olwyn yr un maint ac mewn cyflwr da mi ewch ymhellach o lawer
But when both wheels are of the same size and in good condition you will go much further
cered
CYMRAEG

Beth am ‘Cwricwlwm i Gymru’?


Mae wedi cael ei ddatblygu yng Nghymru gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan ddwyn ynghyd arbenigedd addysgol ac ymchwil a thystiolaeth ehangach.



https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf

Beth sy'n digwydd a phryd?

Dyma beth sy'n digwydd NAWR yn ein hysgolion.




Munud i feddwl …



Beth wyddoch chi am Gwricwlwm i Gymru?

Rhannwch eich syniadau yn y sgwrs.

- Cafodd CWRICWLWM I GYMRU ei gyhoeddi ar yr 28ain o Ionawr, 2020.
- Bydd CWRICWLWM I GYMRU yn newid y ffordd mae plant a phobl ifanc yn dysgu o fis Medi 2022 ymlaen.
- Bydd ysgolion yn gyfrifol am ysgrifennu cwricwlwm eu hunain (hynny yw, yn penderfynu **beth** ddylen nhw ddysgu, **sut** dylen nhw ddysgu a **pham** ddylen nhw ddysgu hyn).



<u>Newidiadau mwyaf amlwg:</u>


1. Fydd neb yn dweud wrth ysgolion beth yn union i'w addysgu yn eu gwersi;
2. Ond, fe fydd yna ddeddf newydd yn nodi pa bethau fydd fydd RHAID eu cynnwys yn y cwricwlwm newydd;
3. Bydd rhaid bod pob ysgol yn ysgrifennu cwricwlwm sydd yn helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r 4 prif nod, sef Y PEDWAR DIBEN.

Cwricwlwm i Gymru

Gwella addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol. Does dim yn fwy hanfodol na bod pob plentyn a pherson ifanc yn caffael addysg ac yn cael mynediad cyflawn at y *profiadau*, yr *wybodaeth* a'r *sgiliau* y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol.


Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn datgan yn glir beth sy'n bwysig wrth ddarparu addysg eang a chytbwys. Gweledigaeth ar y cyd yw'r pedwar diben, a dyma'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Wrth wireddu'r rhain, rydym yn gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn hyrwyddo lles personol a chenedlaethol, yn herio anwybodaeth a ffug-wybodaeth, ac yn annog dysgwyr i chwarae eu rhan fel dinasyddion effro a beirniadol. (tudalen 5)

Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.docx Gymru


Crëwyd gan @ImpactWales
Hawlfraint © 2018
4 DIBEN Cwricwlwm i Gymru
Pam bod angen 4 Diben arnom?
er mwyn i bob athro ac arweinydd ddilyn cenhadaeth gytûn.
er mwyn gosod gweledigaeth gytûn ar gyfer dyheadau ein disgyblion.
Ein Cwricwlwm
Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
Cyfranwr mentrus, creadigol
Dinasyddion egwyddorol gwybodus
Unigolion iach, hyderus
DYHEADAU CENEDLAETHOL UCHEL - OEDOLION CYFLAWN - CENHADAETH GYTÛN - DYSGU GYDOL OES
Sut y dylem ddefnyddio'r Dibenion
fel canllaw wrth ddewis cynnwys y cwricwlwm.
fel fframwaith wrth ddewis yr addysgeg fwyaf addas
Wrth ymrwymo i'r 4 diben bydd athrawon yn deall a chydweddu â gweledigaeth gytûn ar gyfer addysg yng Nghymru.
Wrth wneud dewisiadau am gynnwys, addysgeg ac asesu bydd defnydd y 4 diben yn datblygu ein system o welliant parhaus.
Ategwyd 4 Diben Cwricwlwm i Gymru gan:
Egwyddorion a gorfforwyd yng nghytundeb y CENHEDLOEDD UNEDIG ar Hawliau'r Plentyn
Iaith a Diwylliant Cymreig
Egwyddorion addysg gynhwysol
Rôl gymunedol a dinesig ysgolion
Iechyd a lles disgyblion

Cwricwlwm i Gymru

Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam ydyn ni'n ei addysgu. **(tudalen 5)**




Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.docx Gymru


6 Maes Dysgu a Phrofiad



Y Celfyddydau Mynegiannol



Iechyd a Lles



Y Dyniaethau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mathemateg a Rhifedd



Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Munud i feddwl ...

Beth ydy iaith?

Munud i feddwl …

Beth ydy llythrennedd?

Munud i feddwl …

Beth ydy cyfathrebu?

Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Maes) yn ymwneud ag agweddau hanfodol cyfathrebu rhwng pobl. Ei nod yw cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol yn ogystal â llenyddiaeth. (tud.131)

Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.docx Gymru

Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Darllenwch gynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Ystyriwch y canlynol:

- Pam fod y maes Dysgu a Phrofiad yn cyfeirio at “ieithoedd”?
- Beth yw’r “pedwar datganiad o’r hyn sy’n bwysig”?
- Beth yw’r “egwyddorion cynnydd”?
- Sut mae defnyddio’r “Disgrifiadau Dysgu”?
- Sut mae’r Disgrifiadu Dysgu’n amrywio gydag ieithoedd gwahanol?


Darllenwch gynnwys Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (tudalennau 131 – 169).
Ystyriwch y canlynol (atebion ar dudalennau 131 – 136):



1. Pam fod y Maes Dysgu a Phrofiad yn cyfeirio at "ieithoedd"?	
2. Beth yw'r "Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig"? Sawl un sydd?	
3. Sut mae defnyddio'r "Disgrifiadau Dysgu"?	
4. Sut mae'r Disgrifiadau Dysgu'n amrywio gydag addysgu ieithoedd gwahanol?	
5. Beth yw'r egwyddorion cynnydd? Sawl un sydd?	

Mae cyflwyniad PowerPoint yn y Files ar Teams – gallwch weithio gyda'ch gilydd yno.

Disgrifiad dysgu



Cam cynnydd 1	5 oed
Cam cynnydd 2	8 oed
Cam cynnydd 3	11 oed
Cam cynnydd 4	14 oed
Cam cynnydd 5	16 oed

Yr un sgiliau ar gyfer y ddwy iaith – Cymraeg a Saesneg

Continwwn iaith

…ymlaen at Gamau Cynnydd 4 a 5


Ymlaen â ni .... !